# Tai cymdeithasol hygyrch yng Nghymru: adolygiad o'r systemau asesu, cofnodi a pharu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o’r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 45/2013


Mae defnyddio Cofrestri Tai Hygyrch yn ffordd i landlordiaid cymdeithasol ddod o hyd i eiddo cymdeithasol rhent sy’n hygyrch ac wedi’u haddasu a’u paru gydag anghenion a dewisiadau pobl anabl.

Cofrestr Tai Hygyrch yw cofrestr sydd:

- yn nodi pobl y mae angen cartrefi hygyrch arnynt;
- yn nodi eiddo hygyrch, eu lleoliad a’u nodweddion; ac
- yn galluogi paru pobl a chartrefi addas yn effeithiol.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i landlordiaid cymdeithasol ddarparu’r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd, er bod Llywodraeth Cymru yn eu hannog i wneud hynny.

Cynhaliwyd adolygiad o systemau ar gyfer asesu, cofnodi a pharu gyda landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru gan y Tîm Ymchwil (Shelter Cymru ac Anabledd Cymru) i gadarnhau i ba raddau y defnyddir Cofrestri Tai Hygyrch a systemau paru eraill.


Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Dulliau**

Roedd yr adolygiad yn cynnwys casglu data sylfaenol gan landlordiaid cymdeithasol, rhanddeiliaid ehangach a phobl anabl a oedd wedi profi angen o ran tai.

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Gorffennaf 2012 a Rhagfyr 2012.

Gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol am eu safbwyntiau yn bennaf trwy un o ddau holiadur ar-lein. Roedd un holiadur wedi’i anelu at staff landlordiaid cymdeithasol sy’n gweithio ar lefel cynllunio strategol tra roedd yr arolwg arall wedi’i dargedu at staff rheng flaen.

Roedd ail gam yr ymchwil yn cynnwys:

- cyfres o gyfweliadau un i un gydag wyth o randdeiliaid (gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol)
- dau grŵp ffocws gyda rhanddeiliaid
- grŵp ffocws gyda Therapyddion Galwedigaethol; a
- chyfweliadau un i un gyda chwech o bobl anabl a oedd wedi profi angen o ran tai.

**Canfyddiadau Allweddol**

Mae'r ymchwil wedi canfod bod gan bob awdurdod lleol broses i ddod o hyd i dai hygyrch i bobl anabl. Mae 14 awdurdod lleol wedi cadarnhau bod ganddynt Gofrestr Tai Hygyrch yn ardal yr awdurdod lleol ac mae 8 awdurdod lleol wedi cadarnhau bod ganddynt un o'r canlynol:

(i) mae eu proses yn cynnwys rhai elfennau o'r Gofrestr Tai Hygyrch;
(ii) maen nhw wrthi'n datblygu Cofrestr Tai Hygyrch; neu
(iii) maen nhw'n defnyddio system baru fewnol.

Roedd amrywiad helaeth rhwng pob un o'r Cofrestri Tai Hygyrch a'r modd yr oeddent yn gweithredu, yn ogystal â gwahaniaethau rhwng systemau paru'r awdurdodau lleol hynny nad oes ganddynt Gofrestr Tai Hygyrch ar waith yn yr ardal.

Roedd lefel ein hymgysylltu â'r landlordiaid *de minimis* yn yr astudiaeth bresennol[1] yn gyfyngedig. Fodd bynnag, dywedodd y rheiny a gymerodd ran yn yr ymchwil wrthym nad ydynt yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch.

Mae'n glir nad oes ffurf 'nodweddiadol' ar Gofrestr Tai Hygyrch. Yn hytrach, mae cyfres o gynlluniau paru yn gweithredu ar ffurf Cofrestr Tai Hygyrch.

Cawsom 40 o ymatebion i'r arolwg gan staff landlordiaid cymdeithasol a oedd yn gweithio ar lefel strategol, yn cynrychioli 37 o landlordiaid cymdeithasol. Dywedodd ychydig dros hanner (21) o ymatebwyr eu bod yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch i baru pobl anabl i dai hygyrch, a dywedodd 19 ohonynt nad oeddent yn ei defnyddio. O blith 21 o ymatebion i'r arolwg gan staff rheng flaen (yn cynrychioli 20 o landlordiaid cymdeithasol), dywedodd 13 ohonynt eu bod yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch i baru pobl anabl i gartrefi, a dywedodd wyth ohonynt nad oeddent yn ei defnyddio[2].

Roedd tystiolaeth o amrywiad yn yr hyn y mae Cofrestr Tai Hygyrch yn ei olygu i landlordiaid cymdeithasol. Er gwaethaf yr amrywiad hwn, y dull mwyaf cyffredin oedd ymgorffori'r

[1] Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel Cymdeithasau Tai) yng Nghymru yn gallu cael eu rhannu yn ddau grŵp. Mae landlordiaid mawr yn ddarostyngedig i'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai, yn sgil y ffaith fod nifer yr anheddau y maent yn berchen arnynt i'w rhentu yn 250 neu'n fwy, a landlordiaid llai sy'n 'de minimis' sy'n rhentu llai na 250 o anheddau

[2] Ni chawsom ymateb gan bob landlord cymdeithasol. I'r gwrthwyneb, o bryd i'w gilydd, cawsom fwy nag un ymateb gan wahanol aelodau o staff landlordiaid cymdeithasol penodol.

Gofrestr Tai Hygyrch yn y Gofrestr Tai Cyffredin.

Mae landlordiaid yn cael cyfeiriadau at eu Cofrestri Tai Hygyrch o nifer o ffynonellau, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain yw'r adran ddigartrefedd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol.

Roedd yr holl landlordiaid cymdeithasol yn yr astudiaeth yn cytuno mai'r prif resymwaith ar gyfer sefydlu'r Gofrestr Tai Hygyrch yn lleol oedd gwneud y defnydd gorau o lety presennol a gallu paru anghenion tai pobl anabl â'r llety sydd ar gael.

Er bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei pholisi mewn perthynas â Chofrestri Tai Hygyrch[3], dywedodd llai na dau o bob pump landlord cymdeithasol fod polisi Llywodraeth Cymru ar annog Cofrestri Tai Hygyrch yn effeithio ar sefydlu neu ddatblygu eu Cofrestr ymhellach.

Dywedodd chwarter o landlordiaid cymdeithasol nad oeddent yn ymwybodol o bolisi Llywodraeth Cymru i annog defnyddio Cofrestri Tai Hygyrch (neu nid oeddent yn gwybod digon amdano i roi sylw).

Hoffai landlordiaid cymdeithasol weld Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth ariannol a chymorth ar gyfer datblygu Cofrestri Tai Hygyrch ar draws sefydliadau a ffiniau awdurdodau lleol gan ddefnyddio arfer da presennol. Serch hynny, roedd rhai pryderon ynglŷn â gwneud Cofrestri Tai Hygyrch yn orfodol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol.

Nid yw canlyniadau prosesau paru landlordiaid cymdeithasol yn cael eu monitro'n ddigonol. Ar hyn o bryd, mae'n anodd iawn adrodd ar ganlyniadau mesuradwy'r Cofrestri (neu system baru gyfwerth). Mae landlordiaid cymdeithasol eu hunain yn cydnabod bod monitro canlyniadau yn fater y dylid rhoi sylw iddo yn y dyfodol.

Nid yw nifer o'r Cofrestri Tai Hygyrch yn bodloni meini prawf cofrestr sy'n hygyrch ac yn cael ei hyrwyddo ymhlith y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth posibl a'u heiriolwyr. Yn hytrach, efallai ei bod yn well ystyried cofrestri felly yn 'systemau

3 http://wales.gov.uk/topics/equality/equalityactatwork/?lang=en

paru mewnol'[4].

Roedd landlordiaid cymdeithasol sy'n defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch yn fwy tebygol o gael system effeithiol ar gyfer nodi eiddo hygyrch/wedi'u haddasu/y gellir eu haddasu a sicrhau eu bod ar gael i'r rheiny sydd eu hangen yn fwy na'r rheiny nad ydynt yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch.[5]

Roedd staff landlordiaid cymdeithasol sy'n defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch yn fwy tebygol o gael hyfforddiant arbenigol mewn paru pobl â'u cartref hygyrch ac maent yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i wneud hynny.

Roedd staff sy'n defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch yn fwy tebygol o ystyried ystod o anghenion cyfannol ymhlith y bobl yr oeddent yn eu hasesu o gymharu â'r rheiny nad ydynt yn eu hasesu.

Mae mwy o gydweithio rhwng adrannau a sefydliadau er mwyn paru pobl yn y ffordd orau ag eiddo hygyrch ar gyfer landlordiaid cymdeithasol sy'n defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch.

Serch hynny, mae lle o hyd ar gyfer cyfathrebu gwell (er enghraifft, rhwng yr holl ddarparwyr tai yn yr ardal) a gwelliannau parhaus mewn gweithio cysylltiedig yn fewnol ac yn allanol ar gyfer llawer o landlordiaid cymdeithasol.

Byddai mwyafrif y staff rheng flaen nad ydynt yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch yn hoffi gwneud hynny yn y dyfodol. O'r rheiny nad ydynt am ddefnyddio Cofrestr Tai Hygyrch yn y dyfodol, mae'r rhesymau a roddwyd yn cynnwys diffyg addasrwydd canfyddedig eu cyflenwad tai i'w haddasu ac effeithiolrwydd canfyddedig eu system baru bresennol. Serch hynny, hoffai defnyddwyr gwasanaeth weld yr holl landlordiaid cymdeithasol yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch.

Prif effaith Cofrestri Tai Hygyrch oedd sicrhau bod eiddo wedi'u

[4] Stirling, T., (2009): Cofrestri Tai Hygyrch yng Nghymru

[5] Yn sgil natur amrywiol yr arfer rhwng landlordiaid a ddywedodd eu bod yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch a'r rheiny nad ydynt yn eu defnyddio, rhaid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliad ynghylch gwahaniaethau rhwng y grwpiau. Er ein bod yn adrodd am y gwahaniaethau rhwng grwpiau yn yr adroddiad hwn, rydym yn annog pob i fod yn ofalus wrth gyffredinoli'r canfyddiadau hyn i bob landlord cymdeithasol.

haddasu yn cael eu cadw at ddefnydd pobl anabl a sicrhau bod pobl anabl yn cael eu hailgartrefu mewn tenantiaethau cynaliadwy.

Roedd landlordiaid cymdeithasol sy'n defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch yn credu ei bod yn bosibl mai canlyniad pennaf peidio â defnyddio cofrestr fyddai risg gynyddol i bobl anabl gael eu cartrefu/cael eu gadael wedi'u cartrefu mewn llety anaddas. Gwelsant hefyd mai'r cyfyngiadau mewn gwariant y sector cyhoeddus a diwygiadau mewn Budd-dal Tai oedd y rhwystr mwyaf rhag llwyddiant y cofrestru yn y dyfodol, a'u rhoi ar waith.

Mae rhwystrau eraill yn cynnwys: cost a'r arbenigedd sydd ei angen; diffyg adnoddau staff; cyflenwad tai cyfyngedig; rheoli disgwyliadau; diffyg arweinyddiaeth ar y mater ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn newid. Ymhlith y pethau sy'n hwyluso sefydlu Cofrestri Tai Hygyrch mae'r canlynol: ymrwymiad a buddsoddiad gan yr holl bartneriaid; cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth yn dda a gwaith partneriaeth cryf.

Roedd yn anodd cymharu tair astudiaeth achos ar Gofrestri Tai Hygyrch (Cynllun ADAPT, Tai Hygyrch a Llwybrau[6]) gan fod pob Cofrestr Tai Hygyrch yn defnyddio gwahanol ddull gweithredu, yn gweithredu mewn gwahanol leoliad daearyddol a marchnad dai, yn casglu gwahanol ddata ar ganlyniadau ac yn defnyddio gwahanol fformiwlâu i gyfrifo costau a budd-daliadau.

Serch hynny, roedd tystiolaeth anecdotaidd bod yr arbedion a wnaed gan y Cofrestri Tai Hygyrch wedi gwrthbwyso'r costau.

Yn ystod ein harolwg ar-lein, dywedodd landlordiaid cymdeithasol wrthym, er na allent feintoli'r union arbedion i gyllidebau eraill o ganlyniad i'r Gofrestr Tai Hygyrch, y gwnaed arbedion tebygol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys: gofal iechyd, oedi i ofal preswyl, y gyllideb addasu a Gwasanaethau Cymdeithasol.

O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg strategol, roedd traean yn credu y gellid rhoi Cofrestr Tai Hygyrch ar waith yn y sector rhentu preifat. Yn

[6] (i) cynllun ADAPT sy'n cael ei weithredu yn Abertawe;
(ii) y cynllun Tai Hygyrch sy'n cael ei weithredu yng Nghaerdydd; a
(iii) Llwybrau i Dai wedi'u Haddasu sy'n cael ei weithredu yn Rhondda Cynon Taf.

ychwanegol, roedd ychydig dros hanner y staff rheng flaen sy’n defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch yn cytuno neu’n cytuno’n gryf y dylid eu defnyddio yn y sector rhentu preifat.

Mae rhwystrau rhag rhoi Cofrestri Tai Hygyrch ar waith yn y sector rhentu preifat yn cynnwys amharodrwydd landlordiaid a sicrwydd daliadaeth. Serch hynny, ceir tystiolaeth o landlordiaid cymdeithasol yn gweithio gyda landlordiaid preifat i baru pobl anabl i dai hygyrch a gwelir bod Cofrestr Tai Hygyrch yn y sector rhentu preifat yn bosibl gyda chefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru a’r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

**Awgrymiadau ar gyfer y camau nesaf**

Amlygodd yr ymchwil fanteision yn sgil landlordiaid cymdeithasol yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch. Felly:
Rydym yn awgrymu y dylai pob landlord cymdeithasol ddefnyddio cofrestr i helpu i baru tai i bobl anabl mewn modd effeithiol.
Rydym yn deall bod goblygiadau adnodd yn sgil hyn. Rydym yn awgrymu felly, nes ei bod yn bosibl i bob landlord cymdeithasol gael Cofrestr Tai Hygyrch, y dylai’r rheiny nad ydynt yn defnyddio cofrestr ar hyn o bryd fod wedi gwneud y canlynol:

- gweithredu ffyrdd cadarn o gasglu a defnyddio data monitro canlyniadau
- rhoi systemau nodi a pharu effeithiol ar waith i baru pobl anabl i dai hygyrch
- cynnig hyfforddiant staff cynhwysfawr i’r rheiny sy’n gweithio ar y rheng flaen
- ystyried anghenion tai pobl anabl yn gyfannol
- cydweithio ag ystod eang o adrannau a sefydliadau eraill.

Rydym yn awgrymu y dylai’r diffiniad o Gofrestr Tai Hygyrch a pholisi Llywodraeth Cymru ar annog eu defnydd gael ei hyrwyddo’n eang ymhlith landlordiaid cymdeithasol.
Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo Cofrestri Tai Hygyrch ymhlith landlordiaid *de minimis*.
Mae profiad helaeth o ran gweithredu a chynnal y Cofrestri Tai Hygyrch, gan felly negyddu’r angen i unrhyw landlord cymdeithasol ddechrau o’r dechrau neu arbrofi ag unrhyw gynllun yr oedd yn bwriadu ei ddechrau. Mae sefydliadau sy’n

arbenigo yn y maes hwn a allai gynnig cyngor i landlordiaid cymdeithasol sydd wrthi'n dechrau datblygu cofrestr.

Rydym yn awgrymu, yn ddelfrydol, y dylai ymgeiswyr cymwys gael eu cofnodi ar Gofrestr Tai Hygyrch ar wahân a Chofrestr Tai Hygyrch yr awdurdod lleol (neu ba bynnag bolisi neu weithdrefn y mae'r landlord cymdeithasol wedi'i roi/rhoi rhai ar waith) yn gyfochrog fel y gellir ystyried pobl anabl ar gyfer unrhyw gartref hygyrch neu eiddo gwag y gellid ei addasu yn unol â'u hanghenion.

Gan fod tai hygyrch yn faes arbenigol, dylid cael rhestr ar wahân er mwyn paru ymgeiswyr ag eiddo yn effeithiol. Byddai caniatáu i ymgeiswyr fod ar y rhestr ar wahân a'r Gofrestr Tai Cyffredin (neu beth bynnag yw'r polisi lleol sydd ar waith) yn cynnig dewis a mynediad at arbenigedd. Mae tystiolaeth o lwyddiant pan fydd cofrestri'n gweithredu fel hyn a byddai cysylltu agosach â chynlluniau sefydledig yn helpu i sicrhau bod cofrestri'n cael eu cynnal yn effeithiol.

Dylid sicrhau mai'r nod yw gweithio tuag at gofrestr ranbarthol sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol ac yn cysylltu landlordiaid llai gyda landlordiaid cymdeithasol mwy i hwyluso cofrestr fwy cynhwysfawr. Bydd hyn yn help i roi mwy o ddewis a symudedd i bobl anabl ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo gweithio rhanbarthol ar hyn o bryd.

Byddai pob cofrestr yn cael ei rheoli'n ganolog gan weithwyr prosiect sy'n meddu ar arbenigedd penodol a byddai'n cysylltu â phob un o'r cofrestri eraill er mwyn casglu cofrestr genedlaethol a rhannu arfer da.

**Awgrymiadau i landlordiaid cymdeithasol**

Rydym yn awgrymu y dylai landlordiaid cymdeithasol sy'n ceisio paru pobl anabl â chartrefi hygyrch mewn modd effeithiol barhau i sicrhau eu bod yn cynnwys y canlynol yn eu harfer:

Rydym yn awgrymu y dylai gwybodaeth am Gofrestri Tai Hygyrch fod ar gael yn eang ac yn hawdd er mwyn hybu dewisiadau tai

ar gyfer pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod hysbysebu a chyfathrebu yn hygyrch i bawb.

Rydym yn awgrymu y dylai staff sy’n delio â Chofrestri Tai Hygyrch gael hyfforddiant penodol ar anghenion pobl anabl a’r modd y gellir addasu eiddo gan fod hyn yn cael ei ystyried yn waith arbenigol.

Rydym yn argymell y dylid cryfhau rhan defnyddwyr mewn cyflwyno gwasanaethau a monitro perfformiad yn ymarferol. Un posibilrwydd yw cynnwys pobl anabl gan ddefnyddio eu profiadau wrth hyfforddi staff tai sy’n gyfrifol am Gofrestri Tai Hygyrch.

Rydym yn awgrymu y dylai pob landlord cymdeithasol fabwysiadu’r Model Anabledd Cymdeithasol yn y sefydliad a sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol.

Rydym yn awgrymu y gall yr holl staff rheng flaengyfeirio ymgeiswyr at staff prosiect dynodedig sy’n delio â Chofrestr Tai Hygyrch yn yr ardal.

Rydym yn awgrymu y dylai pob landlord cymdeithasol ac adran gymdeithasol weithio mewn partneriaeth yn effeithiol i sicrhau canlyniadau effeithiol wrth baru pobl anabl i dai hygyrch. Mae enghreifftiau o adrannau y dylai landlordiaid cymdeithasol weithio gyda nhw yn cynnwys: Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant, Digartrefedd ac Opsiynau Tai, Therapyddion Galwedigaethol ac Iechyd.

Yn sgil y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth letya pobl anabl, rydym yn awgrymu y dylai landlordiaid cymdeithasol ystyried targedau eiddo gwag ar wahân ar gyfer cartrefi wedi’u haddasu. Efallai y dylent hefyd ystyried ymestyn y raddfa amser a/neu nifer yr eiddo y gall pobl anabl eu gwrthod cyn iddynt gael eu cosbi os nad ydynt yn teimlo y byddai’r cartref yn bodloni eu hanghenion yn llawn.

Rydym yn awgrymu y dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau eu bod yn gyfarwydd â’r diffiniad o Gofrestr Tai Hygyrch a sicrhau bod eu system baru yn dilyn y diffiniad hwn yn agos os ydynt am ddatgan eu bod yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch. Dylai landlordiaid cymdeithasol barhau i gyfathrebu â’i

gilydd i sicrhau eu bod yn gwybod pa systemau paru sy'n weithredol yn lleol a sicrhau y gellir rhannu arfer da o fewn awdurdodau lleol a rhyngddynt.

Rydym yn awgrymu y dylai landlordiaid cymdeithasol ddatblygu monitro cryfach a mwy cyson o ganlyniadau'r Cofrestri Tai Hygyrch. Mae angen i landlordiaid cymdeithasol gynnal gwerthusiadau parhaus i egluro'r buddiannau o ran cost i gyllidebau eraill ac i iechyd a lles pobl anabl.

Rydym yn awgrymu y dylid mapio adnoddau ar draws ffiniau, a dylid rhannu modelau arfer ar draws awdurdodau lleol i sicrhau dewis ar gyfer pobl anabl. Mae hyn yn digwydd mewn rhai awdurdodau lleol ond nid yw'n gyson ar draws yr holl awdurdodau. Mae rhannu modelau arfer ar draws ffiniau yn ffordd ragorol o rannu gwybodaeth ac arbenigedd ac adnoddau.

Rydym yn argymell y dylai landlordiaid cymdeithasol ystyried polisi ac arfer ynghylch diffyg deiliadaeth yng ngoleuni effaith diwygio budd-daliadau lles a darparu cyflenwad o eiddo wedi'u haddasu a/neu hygyrch.

Er ein bod yn deall bod angen i Gofrestr Tai Hygyrch ystyried cyd-destun ac adnoddau lleol ardal, rydym yn awgrymu y dylid sicrhau safon unffurf, cyhyd ag y bo modd, wrth asesu cymhwyster ar draws awdurdodau lleol. Er enghraifft, sicrhau bod unigolyn yn cael ei asesu'n gymwys mewn un awdurdod lleol yn cael ei asesu'n gymwys mewn awdurdod lleol arall hefyd.

I gyflawni hyn, gallai landlordiaid cymdeithasol edrych ar y gwaith categoreiddio a wnaed yng Nghofrestr Tai Hygyrch Llundain i ddatblygu categoreiddio cyffredin o ran eiddo wedi'u haddasu ar draws ffiniau landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol.

Rydym yn awgrymu y dylai addasrwydd cyflenwad gael ei asesu gan landlordiaid cymdeithasol yn y dyfodol tymor canolig i dymor hir.

Rydym yn awgrymu y dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod unrhyw strategaeth sy'n delio â thai wedi'u haddasu neu dai hygyrch yn cysylltu â strategaeth yr

awdurdod lleol ar ddigartrefedd oherwydd gallai pobl nad ydynt yn gallu dod o hyd i lety hygyrch neu gynnal llety hygyrch fod mewn perygl o fod yn ddigartref.

**Awgrymiadau i Lywodraeth Cymru**

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog defnydd o Gofrestri Tai Hygyrch a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd annog gwaith ar draws ffiniau yn help i wneud y defnydd gorau o adnoddau presennol a hyrwyddo cysondeb, effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys annog arweinyddiaeth gref ar draws y sector i gefnogi datblygu sgiliau a dealltwriaeth newydd.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru annog landlordiaid cymdeithasol i weithio gyda'r sector rhentu preifat i ehangu lefelau'r cyflenwadau wedi'u haddasu sydd ar gael i bobl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynyddu cyflenwadau mewn ardaloedd o Gymru lle mae llawer o alw amdanynt. Rydym yn argymell y dylid gwneud gwaith penodol i godi ymwybyddiaeth am anabledd ac eiddo wedi'u haddasu gyda landlordiaid sector preifat.

Rydym hefyd yn argymell y dylid sefydlu cynllun peilot yn y sector rhentu preifat trwy asiantaeth ar gyfer gosod tai cymdeithasol, ac yn argymell hefyd fod angen ymrwymiad i oresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r sector rhentu preifat.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sara James
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 062 8562
Ffacs: (01685) 728006
E-bost:
sara.james@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
ISBN: 978-0-7504-9687-2
© Hawlfraint y Goron 2013